

# Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

## Cofnodion

### Teitl y cyfarfod:

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF) ar Lygredd Amaethyddol

**Lleoliad:** Cyfarfod Microsoft Teams

**Dyddiad y Cyfarfod:** 20 Chwefror 2023

### Yn bresennol:

Zoe Henderson, (Cadeirydd ac Aelod o Fwrdd CNC)

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Dennis Matheson, TFA

James Ruggeri, HCC

Einir Williams, Cyswllt Ffermio

Shane Thomas, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin

Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru

Chris Mills, WEL

Sarah Jones, Dŵr Cymru

Fraser McAuley, CLA

Nichola Salter, CNC

Sarah Hetherington, CNC

Delyth Lewis-Jones, AHDB

Ieuan Stephen Davies, CNC

Kate Snow, United Utilities

Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru

Marc Williams, CNC

Rachael Madeley Davies, Hybu Cig Cymru

## **Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:**

John Owen, Gelli Aur Coleg Sir Gâr (Eitem 4)

Eirian Macdonald, CNC (Eitem 5)

## **Ysgrifenyddiaeth:**

Bronwen Martin, CNC

## **Ymddiheuriadau:**

Katy Simmons, CNC

David Letellier, CNC

Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin

Mathew Walters, Llywodraeth Cymru

David Ball, AHDB

## **Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant**

1. Croesawodd Zoe Henderson (Aelod o Fwrdd CNC a Chadeirydd Is-Grŵp WLMF) bawb i gyfarfod Microsoft Teams a nododd yr ymddiheuriadau. Croesawodd hefyd Rachael Madeley Davies sy'n cynrychioli Hybu Cig Cymru (HCC).
2. Sylwer bod y cyfarfod yn cael ei recordio ar gyfer y cofnodion ac y bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cymeradwyo.
3. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau ar yr agenda.
  - DS: Mae pob aelod o'r grŵp eisoes wedi llenwi ffurflenni datganiad o fuddiant ond dylent hefyd ddatgan a oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw fater ar yr agenda.

## **Eitem 2 Adolygu'r Cofnodion a chamau gweithredu**

4. Cadarnhaodd y Cadeirydd, unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi'u hadolygu a'u cytuno'n ffurfiol, y byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan CNC lle byddant ar gael i'r cyhoedd. Felly, mae'n bwysig i'r cofnodion fod yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.
5. Adolygodd y grŵp gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2023. Atgoffodd Zoe bawb am y drafodaeth am uwchgyhadledd Ffosffad y Gweinidog, fodd bynnag, cafodd y digwyddiad hwn ei ohirio ac mae wedi cael ei aildrefnu ar gyfer 8 Mawrth.
6. Ni chafwyd unrhyw sylwadau na gwelliannau awgrymedig mewn perthynas â chofnodion cyfarfod mis Ionawr.
7. Rhannodd Bronwen Martin y log gweithredu ac adolygodd y camau sydd ar y gweill.

## Eitem 3 Materion yn Codi

8. Cafodd y grŵp ei annog i drafod unrhyw faterion a oedd yn codi o gofnodion y cyfarfod blaenorol, dogfennau perthnasol, neu bynciau diweddar.
9. Ni chodwyd unrhyw faterion gan y grŵp.

## Eitem 4 Partneriaeth Maetholion Fferm Tywi

10. Ymunodd John Owen, Gelli Aur (Coleg Sir Gâr) â'r cyfarfod i roi cyflwyniad dilynol ar Brosiect Partneriaeth Maetholion Fferm Tywi. Cyhoeddwyd adroddiad terfynol y prosiect yn ddiweddar sydd i'w weld yma – [Adroddiad Terfynol Partneriaeth Maetholion Fferm Tywi](#).
11. Amlinellodd John gefndir y prosiect, gan grynhoi rhai o'r prosiectau eraill gan gynnwys Partneriaeth Maetholion Fferm Tywi SMARTExpertise a'r Prosiect Tywydd Tywi.
12. Disgrifiodd John rai o'r prosesau ym Mhrosiect Partneriaeth Maetholion Fferm Tywi gan gynnwys defnyddio technoleg arloesol a luniwyd i gynorthwyo i reoli maetholion. Mae'r amcan a nodir ar y dechrau i wahanu'r dŵr wedi'i gyflawni i'r graddau bod y pwyslais wedi newid o'r gollyngiad i ailgylchu dŵr yn llawn. Mae crynodi'r maetholion ar ffurf solid wedi gostwng hyd at 80% y gofyniad o ran cyfanswm y capasiti storio ac wedi lleihau'r llygredd posibl. Mae cynnydd cyfredol prisiau gwrtaithe cemegol wedi amlygu'r angen am effeithlonrwydd gwell wrth ddefnyddio maetholion cartref. Yna, soniodd John am rai o'r cyfraddau bachu maetholion.
13. Yn olaf, soniodd John am rai o'r dyheadau ar gyfer datblygiadau i'r dyfodol ar gyfer y prosiect presennol, gan gynnwys:
  - Cynyddu partneriaethau a chydweithrediadau.
  - Ystyried ychwanegu gwerth at faetholion fferm os yw'r hyn a gynhyrchit yn fwy na'r galw.
  - Sefydlu hybiau triniaeth lleol.
  - Ystyried triniaeth dreulio anaerobig.
  - Gwerthuso'r broses o gynhyrchu golosg bioddiogel
14. Gofynnodd Zoe a ydyn nhw wedi gwerthu eu holl danceri slyri yng Ngelli Aur. Dywedodd John na, ac mai prosiect datblygu ydyw, a hyd yma, y staff datblygu sy'n rhedeg y safle, nid staff y fferm. Ychwanegodd eu bod yn cynyddu'r driniaeth ond dydyn nhw ddim yn trin yr holl slyri ar y fferm hyd yn hyn. Mae'n broses amgen a allai fod yn weithredol ar lawer o ffermydd. Mae angen lefel o oruchwyliaeth ac arbenigedd i wneud iddo weithio'n iawn ond byddai rhai ffermydd yn wirioneddol addas, er na fyddai eraill mor addas o bosibl.
15. Gofynnodd Chris Mills beth yw'r gost mewn gwirionedd i gyflawni'r broses. Dywedodd John fod y manylion yn yr adroddiad. O ran y costau rhedeg, mae'r driniaeth yn costio tua £15 i bob metr ciwbig ac mae hynny'n cynnwys y costau rhedeg trydanol presennol a'r costau o ran cemegion. Dywedodd Chris mai un o'r llwybrau ar gyfer hyn mewn gwirionedd yw allforio i ardaloedd lle mae ei angen. Gofynnodd Chris a ydyn nhw wedi edrych ar y model economaidd hwnnw a sut mae hynny'n cymharu â gwrtaithe

masnachol. Yn ôl John, mae cymhariaeth yn yr adroddiad, ond rydym yn ystyried ychwanegu gwerth ato. Dyma lle rydym yn rhagweld yr hybiau triniaeth lleol yn gweithio, sef manau ar y cyd â'r treulio anaerobig, y gallem gynhyrchu cynnyrch sy'n cael ei sychu ymhellach o'r solidau presennol ac y gellid ei roi mewn bagiau a'i allforio'n eithaf effeithlon dros y ffin, ac y byddai gwerth iddo. Yr hyn sydd angen i ni ganfod yw'r gwerth ychwanegol y gallem ni ei gynhyrchu, beth yw'r refeniw y gallem ni ei gynhyrchu o drydan, beth yw'r costau cysylltiedig a beth yw'r balans. Mae hwnnw'n ddarn o waith sydd angen ei wneud wrth symud ymlaen, ond o bosibl gallai dalu am y gost o redeg y safle mewn gwirionedd sy'n golygu na fyddai'n rhaid i ffermwyr gyfrannu tuag at drin y slyri a gallai'r maetholion gormodol gael eu hallforio i ffwrdd o'r ardaloedd problemus.

16. Dywedodd Dennis Matheson, TFA fod y safle yr oedd yn ei ystyried yn wreiddiol yn dibynnu ar electrolysis. Un o'r problemau oedd cost yr electrodau alwminiwm, a ddefnyddiwyd yn gyflym iawn ond nid oedd yn cofio bod John wedi sôn am electrolysis yn y cyflwyniad. Dywedodd John fod electrolysis yn y cyfluniad gwreiddiol ond oherwydd materion sy'n gysylltiedig â halogion uchel yn y slyri, nid oedd yr electrolysis yn gallu ymdopi â lefel uchel yr halogion yn y ffeibr a'r maetholion. Symudwyd i ffwrdd o'r electrolysis yn ôl i driniaeth gemegol hylifol a phan wnaethom ni'r cyfnewid hwnnw, daeth yr holl broses yn llawer mwy effeithlon.

Gofynnodd Dennis hefyd a oeddent wedi edrych ar bathogenau yn y slyri fel TB, sy'n gallu byw yn y slyri am flwyddyn a beth sy'n digwydd i'r rheiny pan fyddwch chi'n ei wahanu. Dywedodd John nad ydyn nhw wedi gwneud unrhyw waith ar oroesiad TB drwy'r broses wahanu ac nid oes dim byd sy'n awgrymu y byddai'r bacteria yn cael ei ladd yn y broses, felly mae yna ragor o waith i'w wneud ar hynny. Fodd bynnag, byddai'r hyn rydym yn ei gynnig ar y gwaith o gynhyrchu bio-olosg yn bendant yn lladd unrhyw facteria o fewn y broses honno. Mae hyn yn fantais wirioneddol wrth ystyried triniaeth bellach a'r effeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â chludo'r bio-olosg hwnnw o gymharu â'r elfen solid.

Soniodd Dennis ei bod yn ymddangos bod carthion dynol yn eithaf rhwydd i'w gwahanu ac mae'r dŵr yn mynd yn syth yn ôl i'r afon felly pam ei bod hi mor anodd trin slyri da byw o gymharu â charthion dynol. Dywedodd John mai'r gwahaniaeth rhwng carthion dynol a da byw yw lefel yr halogion a'r cynnwys ffeibr solid sydd yn y slyri.

17. Gofynnodd Zoe a oedd modd gwahanu'r nitradau a'r ffosffadau. Dywedodd John mai dyna oedd yr elfen gwbl allweddol o ran rheoli maetholion. Oherwydd y cyfraddau tynnu gwahanol, rydym yn gallu tynnu canran uchel iawn o'r ffosffadau yn y ffurf solid a chadw tua 30% o'r nitrogen yn yr hylif. Dyma lle rydym yn dyfrhau'r hylif, ond dim ond yn ystod y tymor tyfu y gallwn wneud hynny. Mae gennym ni ddwy lain yng Ngelli Aur ac yno fe wnaethom ni ddarparu 170 cilogram a mwy o nitrogen dim ond drwy'r broses eplesu a thrwy ddileu'r angen am unrhyw wrtaith mewn bagiau ar y lleiniau hynny sydd â chyfraddau twf tebyg. Ond dim ond i'r graddau hynny, serch hynny; ni allwn wahanu'r ddau faethyn yn llawn. Mae tua 77% o'r nitrogen yn y ffurf solid ac mae tua 98% o'r ffosffadau'n cael eu tynnu ohono. Y peth da yw y gallwch chi mewn gwirionedd gael y ffosffadau allan o'r hylif yn gyfan gwbl bron iawn drwy'r broses fecanyddol, felly mae gennych chi gynnyrch sydd tua 20% o ddeunydd sych yr un fath, ond bod modd ei allforio.

18. Roedd Zoe yn cofio bod John wedi sôn am werthu'r system a bod dwy yn cael eu gwerthu i Loegr. Gofynnodd Zoe â phwy y dylid cysylltu os oes ganddyn nhw

ddiddordeb mewn masnacheiddio hyn. Dywedodd John fod GEA i'w weld yn arwain ar y gwaith a'u bod yn dwyn ynghyd y partneriaid eraill, ond mae'n dibynnu ar y galw ar ffermydd unigol.

19. Gofynnodd Bernard Griffiths, FUW am ymateb Llywodraeth Cymru i'r gwaith hwn. Rydym yn cyrraedd y cam lle mae'n debyg ein bod o fewn trwch blewyn i ddatrys problemau slyri fferm, felly ydy Llywodraeth Cymru yn derbyn efallai y gallai'r holl reoliadau sy'n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd gael eu disodli gan arloesedd a thechnoleg. Dywedodd John fod y Gweinidog wedi dod i gael golwg ar ôl cael gwahoddiad a bod y Gweinidog yn llawn canmoliaeth am yr hyn rydym yn ei wneud. Fodd bynnag, rydym yn siomedig iawn nad ydym wedi cael ymateb i'n cynigion ar gyfer Mesur Amgen. Mae rhai o'r rheiny yn sicr yn integreiddio'r dechnoleg rydym wedi'i datblygu, a byddem wir yn hoffi gweld hynny'n cael ei ddefnyddio. Roedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad y broses felly efallai mai dim ond nawr, a ninnau wedi profi'r broses, y gallant ystyried ei integreiddio i ddeddfwriaeth.

Dywedodd Andrew Chambers fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn sawl cynnig ar gyfer Mesurau Amgen a'u bod yn cael eu hystyried yn eu holl rychwant. Nid ydym am benderfynu ar un cynnig lle gall gyd-gysylltu â chynnig arall, felly mae angen eu hystyried i gyd gyda'i gilydd. Mae'r broses honno'n mynd rhagddi ar hyn o bryd. Bydd y Gweinidog yn gwneud datganiad ar hyn, yn sicr erbyn 1 Ebrill, sef y dyddiad cau o dan y rheoliadau i'r Gweinidog wneud datganiad ar unrhyw gamau sy'n mynd i gael eu gweithredu. Mae arian Llywodraeth Cymru wedi mynd tuag at brosiect Gelli Aur, ac mae gennym ddiddordeb mawr yn y cais. Mae'n sicr yn rhywbeth y gellir rhoi ystyriaeth iddo yn enwedig lle mae unrhyw rwystrau yn y rheoliadau. Byddwn yn sicr yn edrych ar hynny wrth symud ymlaen.

Dywedodd Chris does bosib na fyddai'n disodli'r rheoliad, ond yn hytrach yn gwneud y rheoliadau'n llawer haws i gydymffurfio â nhw. Mae dal angen i ni gael cyfyngiadau i wneud yn siŵr nad ydym mewn gwirionedd yn achosi problemau drwy gael maetholion gormodol. Nid yw hyn yn orfodol; mae yno i bobl ei fabwysiadu'n wirfoddol. Felly, ni fyddai'n disodli'r rheoliadau, ond byddai'n ei gwneud hi'n llawer haws i ffermwyr gydymffurfio â nhw mewn gwirionedd. Dywedodd Bernard efallai nad disodli oedd y gair cywir, ond siawns os oes gennych chi broses ar y fferm i drin y slyri, a'ch bod wedi ychwanegu gwerth ac yn cynhyrchu pethau ar ffermydd, yna ni fyddai angen i chi storio am bum mis.

20. Gofynnodd Fraser McAuley, CLA, a fydd hyn yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar sectorau eraill, er enghraifft y sector dofednod. Bydd, medd John, mae'r elfennau'n berthnasol i bob sector. Yn benodol, gallai'r driniaeth ganolog lle gellid defnyddio tail dofednod mewn proses treulio anaerobig a gweddillion treuliad anaerobig ar ddiwedd y broses honno, gael ei ddad-ddyfrio. Gallen ni ychwanegu gwerth at hynny drwy gynhyrchu bio-olosg gan ddefnyddio rhywfaint o'r ynni a gynhyrchir a rhywfaint o'r gwres gormodol a gynhyrchir hefyd. Felly, gellir cymhwyso'r broses mewn modd traws-sector.

**AP Chwefror 01: Bronwen Martin, CNC i ddsbarthu copi o gyflwyniad Partneriaeth Maetholion Fferm Tywi John Owen, dolen i'r adroddiad terfynol a manylion cyswllt.**

## Eitem 5 Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021: Diweddariad CNC

21. Rhoddodd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, yr wybodaeth ddiweddaraf am adnoddau ar gyfer Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Yn ôl Andrew, yn dilyn adolygiad sylfaenol CNC, nodwyd bod angen datblygu Cytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA). Roedd un o'r SLAau hynny'n ymwneud â chydymffurfio â Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol (CoAPR). Cafodd CNC a Llywodraeth Cymru y dasg o ddatblygu SLA sydd wedi ei wneud. Mae'r SLA wedi'i drafftio a'i gymeradwyo ac mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno i ddyrannu £2.55 miliwn i CNC ar gyfer gorfodi'r rheoliadau dros y ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae hon yn rhaglen ar gyfer cydymffurfiaeth gorfodi cwbl newydd sy'n cwmpasu'r CoAPR ac nid yw'n gysylltiedig â'r Prosiect Llaeth.
22. Dywedodd Eirian Macdonald, CNC ei bod yn dirprwyo ar ran Dav Letellier a Simon Neale, sy'n arwain ar y maes penodol hwn yn CNC. Rhoddodd Eirian yr wybodaeth gefndirol am yr hyn sydd wedi'i wneud yn CNC hyd yn hyn.
23. Ar sail yr SLA y cytunwyd arno, yn ôl Eirian, mae CNC yn gobeithio cyflogi staff ychwanegol dros y 12 i 18 mis nesaf i gyflwyno'r gweithgareddau o fewn y SLA CoAPR. Mae rhaglen CNC yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Mae'r SLA ei hun yn ymdrin â darparu rhaglen wedi'i thargedu o archwilio cydymffurfiaeth sy'n cynnwys archwiliadau Trawsgydymffurfio gyda RIW a gwaith gorfodi cysylltiedig. Bydd y gwaith cydymffurfiaeth yn canolbwyntio ar ffermydd sy'n gwneud gweithgareddau amaethyddol risg uwch fel ffermydd gwartheg (cig eidion a llaeth) sy'n cynhyrchu slyri, unedau moch o dan drothwy yr EPR, unedau dofednod o dan drothwy yr EPR ac unrhyw un sy'n mewnfurio tail organig (fel y'u diffinnir yn y Rheoliadau) sy'n cynnwys biosolidau, gweddillion treuliad anaerobig, compostau a gwastraff wedi'u hadennill i dir. Bydd CNC hefyd yn cynhyrchu mapiau yn dangos y gweithgareddau hyn gyda data hysbys. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gafwyd o'r Prosiect Llaeth hefyd a byddwn yn parhau i ddilyn y camau gweithredu angenrheidiol a nodwyd. Mae CNC yn datblygu system casglu, cofnodi, ac adrodd data, archif mewmol ar gyfer ymholiadau technegol a hyfforddiant technegol priodol, er bod llawer o hyn eisoes yn cael ei dreialu. Mae CNC wrthi'n cwblhau canllawiau newydd ar gyfer staff hefyd. Bydd dangosfwrdd adrodd hefyd, wedi'i ddatblygu gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod cynnwys ac amllder yn bodloni'r gofynion.
24. Efallai y bydd angen gweithredu rhai o'r gweithgareddau fesul dipyn yn ystod y ddwy flynedd nesaf gan gynnwys:
  - Recriwtio staff, ac yna hyfforddi a datblygu staff newydd gan gynnwys deunydd cymorth.
  - Paratoi gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad statudol 4 blynedd ar effeithiolrwydd Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.
25. Eglurodd Nichola Salter y bydd y broses recriwtio yn cael ei phroffilio er mwyn sicrhau ei bod yn broses hylaw. Ar hyn o bryd mae Nichola yn llunio'r mapiau ar gyfer yr ardaloedd lle mae'r galw mwyaf, a fydd yn helpu i leoli'r staff newydd.

26. Gofynnodd Chris a ellid neilltuo mwy o adnoddau ar gyfer ymchwiliadau i ddigwyddiadau oherwydd bod hwnnw'n faes lle mae adnoddau wedi bod yn ffactor sy'n cyfyngu yn y gorffennol. O ran staff newydd, gofynnodd Chris pa wybodaeth, profiad, a rhinweddau personol y mae CNC yn chwilio amdanynt. Dywedodd Eirian fod CNC yn datblygu'r rhaglen recriwtio ar hyn o bryd. Mae'r sgiliau allweddol a fydd yn ofynnol ar gyfer y rolau hyn yn rhywbeth a fydd yn cael ei ystyried. Dywedodd Nichola fod CNC wrthi'n drafftio'r proffiliau rôl ac mae hi'n cyfathrebu ag Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) i weld pa wersi y maen nhw wedi'u dysgu o'r broses recriwtio ddiweddar o'u Dulliau Profi mewn perthynas â Rheoleiddio Amaethyddiaeth (Prosiect TARA). Bydd yr aelodau staff CNC newydd hyn yn cynnal archwiliadau a mesurau gorfodaeth cysylltiedig (lle bo angen) yn unol â [CNC: Polisi Gorfodi a Sancsiynau](#) sydd wedi'i gyhoeddi.

Eglurodd Nichola fod y recriwtio'n digwydd yn benodol ar gyfer cyflawni'r SLA ar gyfer cydymffurfiaeth â Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol a gorfodi'r Rheoliadau hynny. Dywedodd Chris fod hyn yn siomedig oherwydd y realiti ar lawr gwlad yw bod yr archwiliad, y cydymffurfio, a'r gorfodi yn mynd i gwmpasu'r maes ymateb i ddigwyddiadau ac felly mae angen i chi allu gwneud cysylltiadau. Dywedodd Nichola ei bod yn treialu modiwl hyfforddi ar gyfer staff, fel eu bod yn gwbl gyfarwydd â phob agwedd ar y rheoliadau. Nid yw'r SLA CoAPR yn cynnwys ymateb i ddigwyddiadau, rotas wrth gefn na galw y tu allan i oriau; ond mae'n cynnwys y gydymffurfiaeth dechnegol ddilynol a wneir ar ôl yr ymateb cychwynnol i'r digwyddiad.

27. Gofynnodd Chris ydy'r SLA yn cynnwys meini prawf llwyddiant i'r staff newydd a'r hyn maen nhw'n ei wneud. Dywedodd Nichola fod CNC wedi cael cais i greu dangosfwrdd adrodd ar gyfer Llywodraeth Cymru. Soniodd Chris fod gweithgarwch yn hawdd i'w fesur, ond nid yw hynny'n wir am ganlyniadau. Dywedodd Nichola y bydd hyn yn seiliedig ar ganlyniadau, er enghraifft nifer y ffermydd a fydd yn cydymffurfio o'r newydd, yn hytrach na nifer y ffermydd yr ymwelwyd â hwy.

28. Gofynnodd Fraser McAuley ynghylch ymgysylltu â ffermwyr go iawn, ac a oedd dymuniad i'r grŵp hysbysu ein haelodau perthnasol o hyn a'r cynnydd posibl mewn ymweliadau gan CNC, neu a fydd CNC am roi rhywbeth ar waith. Dywedodd Nichola ei bod yn ddyddiau cynnar, ond fe fydd cyfathrebu mewnol ac allanol. Ar ôl i ni recriwtio, byddwn yn gallu hysbysu'r grŵp hwn am y cynnydd diweddaraf. Gofynnodd Fraser a fydd graddfa o ymyriadau gan CNC mewn llythyr sy'n dangos yr hyn a allai fod angen ei newid fel 'hawl i gywiro', cyngor a chanllawiau a'r senarios gwaethaf gyda chosbau ariannol. Dywedodd Nichola mai dyna sut mae CNC yn gweithio ar hyn o bryd, mae yn ein Polisi Gorfodi a Chosbi sydd ar ein gwefan ([CNC: Polisi Gorfodi a Sancsiynau](#)). Mae'r Rheoliadau yn rhan o Drawsgydymffurfio, mae'n ofynnol i ni roi gwybod am unrhyw achosion o dorri rheoliadau i RIW. Bydd prosesau CNC ar gyfer gorfodi "gwaith arferol o ddydd i ddydd", yn seiliedig fel bob amser ar effaith amgylcheddol. Bydd lefel yr orfodaeth yn dibynnu ar lefel yr effaith, a bydd hynny'n amrywio o gyngor a chanllawiau i erlyniad llawn yn y llys.

29. Yn ôl Rachel Lewis-Davies, mae cyngor a chanllawiau yn mynd i fod yn bwysig iawn ond ni ddylid diystyru maint yr her o ran sicrhau bod y diwydiant ffermio cyfan yng Nghymru wedi'i baratoi ar gyfer cymhlethdod y rheoliadau hyn. Gofynnodd Rachel am y dull y bydd CNC yn ei fabwysiadu gyda'r SLA hwn, a oes elfen o gyngor a chanllawiau ynghlwm wrtho. Ydy CNC yn bwriadu cyhoeddi gwybodaeth, cawsom y canllawiau 'Pan ddaw'r archwilydd' yn sgil adolygiad o reoleiddio gan Gareth Williams, felly a fydd canllawiau ar gyfer y rheoliadau hyn? Os felly, pryd mae'r wybodaeth honno'n mynd i

gael ei darparu. Yn ôl Nichola, cyhoeddwyd 'Pan ddaw'r archwilydd' gan Lywodraeth Cymru ac nad oedd yn gwybod a fyddai'r canllawiau'n cael eu hail-argraffu. Fel gydag ymweliadau eraill CNC, aeth ymlaen i ddweud mai'r bwriad yw hyn: pan fydd Swyddog yn cysylltu â'r ffermwr, y bydd yn rhannu gwybodaeth am yr hyn y bydd am ei wirio a rhywfaint o ganllawiau ynghylch hynny. Dywedodd Rachel y bydd yr hysbysiad hwnnw o archwiliad yn cael ei wneud yn ysgrifenedig neu dros y ffôn oherwydd os yw ffermwr ar ganol tasg, efallai na fydd wedi cael yr holl wybodaeth a bydd hynny'n ychwanegu at ei faich yn hytrach na thawelu ei feddwl. Dywedodd Nichola fod gan bob archwilydd ei ffordd ei hun o weithio, ond waeth a fydd archwilydd yn cysylltu â ffermwr dros y ffôn neu drwy lythyr, bydd wedyn yn dilyn hynny gyda llythyr.

O ran y staffio, gofynnodd Rachel a ydynt yn mynd i gael hyfforddiant ar les ac iechyd meddwl y ffermwr. Yn y Deyrnas Unedig, rydym yn colli un ffermwr yr wythnos i hunanladdiad ac mae rheoleiddio wedi'i nodi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel rhywbeth sy'n cyfrannu'n allweddol at iechyd meddwl gwael ymhlith y gymuned ffermio. Mae hon yn elfen bwysig y dylid ei chynnwys yn yr hyfforddiant os nad yw wedi'i gynnig eisoes. Dywedodd Nichola y bydd hynny'n sicr yn cael ei gynnwys. Roedd Nichola yn cofio bod pobl wedi dod i siarad â'r Swyddogion Llaeth am les ffermwyr a'u gwneud yn ymwobodol o straen a phwysau.

Roedd Rachel am ddeall mwy am y fethodoleg y mae CNC am ei defnyddio ar gyfer yr adolygiad 4 blynedd ac a fyddai modd rhannu hynny gyda rhanddeiliaid. Dywedodd Nichola y bydd CNC yn darparu data yn unol â chais Llywodraeth Cymru a fydd yn cynnal yr adolygiad.

30. Yn ôl Chris, mae cyngor a chanllawiau wedi bod ar gael am flynyddoedd ac nid yw'r canlyniad wedi bod yn wych. Os ydych am gael y canlyniad cywir, sef lleihau llygredd amaethyddol, yna mae'n rhaid cael y dull cywir. Rhaid cael cydbwysedd rhwng cyngor, canllawiau a helpu gyda buddsoddiad. Yn y pen draw, mae'n rhaid i ni gael rhywfaint o weithredu hefyd mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth ac yn enwedig diffyg cydymffurfiaeth parhaus. Dywedodd Andrew fod yna ddull cymesur o ran cyngor, arweiniad, neu gyfarwyddyd pan fydd yn briodol. Byddai ymagwedd lymach, er enghraifft, pe bai corff dŵr wedi cael ei effeithio'n uniongyrchol gan ddigwyddiad llygredd sylweddol. Eglurodd Rachel fod ei sylwadau yn ymwneud â chyngor a chanllawiau yn ymwneud yn benodol â chymhlethdod y rheoliadau a bodloni'r gofynion. Ni ddylid diystyru pa mor gymhleth yw'r gwaith papur a pha mor anodd yw hi i'r gymuned ffermio sy'n ymrafael â hyn. Mae ffermwyr yn mynd i gyfarfodydd Cyswllt Ffermio ac maen nhw'n dal i gael eu llethu'n fawr gan gymhlethdod y gwaith papur a fydd yn sail i'r archwiliad ac maen nhw'n cael eu llethu gan achosion posibl o dorri'r rheoliadau os canfyddir achos o ddiffyg cydymffurfiaeth. Felly, mae angen cymorth ar ffermwyr ar ffurf cyngor a chanllawiau. Mae dull rheoleiddio sy'n cael ei gyflwyno ac sy'n cosbi pobl am gael gwaith papur yn anghywir yn mynd i ychwanegu at eu baich ar adeg pan maen nhw eisoes yn wynebu pwysau sylweddol iawn, mae angen i ni i gyd fod yn barchus o hynny. Ar ôl bod drwy'r ymarfer Mesurau Amgen, dywedodd Chris ei fod yn deall yn iawn beth mae Rachel yn ei ddweud.
31. Dywedodd Dennis Matheson, TFA fod gan CNC ddisgresiwn ar sut i fwrw ymlaen ag unrhyw sancsiynau ar dorri'r rheoliadau, ond nid oes ganddynt unrhyw lais o ran torri rheolau Trawsgydymffurfio. Gofynnodd Dennis sut gall disgresiwn gyd-fynd ag archwiliadau Taliadau Gwledig Cymru, os ydyn nhw'n cynnal archwiliadau hefyd, yn ôl pob tebyg, byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru eu cynnal a gofynnodd a all hynny



ddigwydd tra rydym yn parhau'n ddarostyngedig i rai o reolau ariannu'r UE. Dywedodd Andrew fod hyn yn ymwneud â'r lefel honno o gymesuredd ac yn amlwg mae gennym y matrices cosbau o fewn y maes Trawsgydymffurfio ac mae hwnnw'n cael ei ddefnyddio i benderfynu ar lefel y gosb sy'n cael ei chymhwyso mewn unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth.

Gofynnodd Dennis ydy'r Prosiect Llaeth yn mynd i ddirwyn i ben o'r diwedd. Dywedodd Nichola fod y Prosiect Llaeth wedi'i ariannu gan CNC tan 31 Mawrth 2023 ac nad yw'n ymwybodol o unrhyw gyllid pellach.

Gofynnodd Dennis beth sydd wedi digwydd i'r ddogfen Cwestiynau Cyffredin (FAQ) ar gyfer Ffermwyr Tenant. Dywedodd Nichola nad yw hyn wedi cael ei anghofio a'i fod ar y rhestr o bethau i'w gwneud.

Roedd Dennis yn cofio bod Nichola wedi rhoi cyflwyniad mewn gweminar Cyswllt Ffermio diweddar ond nid oedd ganddo gyfleuster deialu i mewn felly ni allai gymryd rhan. Dywedodd Dennis ei fod wedi cael copi papur o'r cyflwyniad. Dywedodd Einir y byddai'n codi'r mater gyda'r tîm marchnata.

32. Dywedodd Einir Williams, Cyswllt Ffermio ei bod wedi anfon e-bost at gydweithwyr yn yr adran farchnata i ofyn am ystadegau ar y digwyddiadau llygredd amaethyddol y maen nhw wedi eu cynnal. Rydym yn cynnal gweithdai llawlyfr digidol a fydd yn sectorol, felly byddant yn arbenigol ar gyfer dofednod, ffermio cymysg, llaeth, cywion ieir a chig eidion. Mae'r rheiny'n dechrau ym mis Mawrth ac mae'r Swyddogion Datblygu yn mynd i fod yn anfon gwahoddiadau i'r sectorau hynny drwy e-bost. Bydd llawer o'r gweithdai'n ddigidol ond dyna'r drefn y dyddiau hyn fwy neu lai. O ran y gweithlyfr, rydym wedi cynnal clinigau 1-2-1 ledled Cymru. Mae fersiwn print o'r gweithlyfr ar gael yn y Canllawiau ar wefan Llywodraeth Cymru (<https://www.llyw.cymru/rheoli-rheoliadau-llygredd-amaethyddol-canllawiau>)

33. Holodd Fraser ynghylch Grantiau Buddsoddi Slyri ac a oes unrhyw rai ar agor ar hyn o bryd neu a fydd cyfleoedd ychwanegol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Dywedodd Andrew nad oedd yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ond y gallai ymchwilio i'r mater.

***AP Chwefror 02: Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd cyfredol/yn y dyfodol ar gyfer Grantiau Buddsoddi Slyri.***

34. Gofynnodd Rachel am eglurder ynghylch y dull o ymdrin â'r adolygiad 4 blynedd. Dywedodd Andrew fod y rheoliadau'n cynnwys adolygiad 4 blynedd gorfodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ystyried unrhyw dystiolaeth wyddonol (yn gynnwys gan CNC) ac ydy'r rheoliadau'n cyflawni'r canlyniadau'n effeithiol. Mae'r adborth gan aelodau'r grŵp hwn yn cael ei groesawu a bydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad hwnnw. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pethau fel arloesi, a oes unrhyw rwystrau o ran cyfleoedd i arloesi yn y rheoliadau, a allwn wneud pethau mewn ffordd fwy effeithiol i leihau'r baich ar ffermwyr gan leihau'r cymhlethdod. Nid oes gennym ddyddiad cychwyn ar gyfer yr adolygiad ond byddwn yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlenni maes o law. Er hynny, diwedd y cyfnod 4 blynedd fydd 1 Ebrill 2025.

35. Gofynnodd Zoe am yr wybodaeth ddiweddaraf am yr £20 miliwn a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022. Dywedodd Andrew fod cyllid wedi'i neilltuo ond nid yw wedi'i ddyrannu i unrhyw brosiectau penodol eto.
36. Aeth Zoe ati i grynhoi'r drafodaeth gan ddweud bod angen i ni sicrhau ein bod yn rheoli cyfathrebiadau. Mae angen i ni i gyd helpu ffermwyr i ddeall beth sydd i ddod, sut mae'n mynd i effeithio arnynt a sicrhau eu bod yn derbyn yr wybodaeth mewn ffordd gadarnhaol a dealladwy, fel nad yw'n achosi straen ychwanegol.

## **Eitem 6 Prosiect Afonydd ACA: Manylion Diweddaraf am y Grŵp Technegol Amaethyddol**

37. Rhoddodd Ieuan Stephen Davies, CNC drosolwg byr a'r wybodaeth ddiweddaraf am Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA).
38. Mae Ieuan yn Ymgynghorydd Arbenigol ar gyfer Amaethyddiaeth ym Mhrosiect Afonydd ACA ac mae yn y swydd hon tan fis Tachwedd. Mae Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA wedi'i sefydlu a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yn gynnar ym mis Chwefror. Mae'r grŵp bach allanol hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant amaethyddol - mae aelodaeth yr Is-grŵp WLMF yn croesi rhywfaint â'r grŵp hwn. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Grŵp Technegol Amaethyddol gynrychiolydd o'r diwydiant dofednod ond mae ganddo arbenigedd da yn y sectorau eraill a'r bwriad felly yw llenwi'r bwlch dofednod hwnnw cyn gynted â phosibl.
39. Delyth Lewis-Jones, o'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB), yw Cadeirydd y Grŵp Technegol Amaethyddiaeth sy'n cysylltu â Grŵp Goruchwylio Afonydd ACA (SACROG). Mae aelodaeth y grŵp yn fwriadol fach ac wedi'i gyfyngu i'r rhai a fydd yn helpu i fodloni'r nodau a'r amcanion gan sicrhau'r lefel gywir o arbenigedd ar gyfer cyflawni. Mae'r grŵp wedi'i sefydlu am chwe mis i ddechrau ond mae'n bosib y bydd hyn yn cael ei adolygu er mwyn ei ymestyn os oes angen i ni ddarparu cymorth technegol pellach i elfennau ffrwd waith eraill Prosiect Afonydd ACA. Bydd y Grŵp Technegol Amaethyddiaeth yn adrodd ei fanylion allweddol diweddaraf i Is-Grŵp WLMF a SACROG. Er ei fod yn cael ei arwain gan ddiwydiant, mae presenoldeb o CNC yn y grŵp. Mae Marc Williams, CNC, yn rhoi cyngor rheoleiddio ac yn hwyluso'r grŵp yn gyffredinol. Mae Ieuan yn rhoi cymorth Ysgrifenyddiaeth i'r grŵp.
40. Prif nod y grŵp yw rhoi dealltwriaeth o'r dystiolaeth sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a llygredd gwledig. Bydd y grŵp yn nodi'r dystiolaeth a'r bylchau mewn tystiolaeth ac yn creu ffrydiau gwaith er mwyn llenwi'r bylchau hynny. Bydd hyn yn helpu i gael dealltwriaeth gymesur a chytbwys o'r materion ansawdd dŵr sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth a'r technegau rheoli amrywiol yn y sectorau.
41. Y dasg gychwynol i'r grŵp yw deall prosesau ffosfforws mewn priddoedd a deall y darlun ehangach, gan gynnwys camau gweithredu ar y cyd â maetholion eraill a'r planhigion a'r cynydau sydd ar gael, y defnydd ohonynt, a llwybrau amrywiol i ddŵr.
42. Mae gan y grŵp ddealltwriaeth gyffredin ac maen nhw wedi cael trafodaethau da ynglŷn â'r hyn sydd angen i ni ei wneud. Mae angen i'r grŵp gyflwyno esboniadau syml a chywir o ran beth yn union yw'r broblem ffosffad yn yr arferion amaethyddol gwahanol, beth sy'n cyfrannu at y broblem, pa arferion sydd yno i liniaru'r broblem, a faint o dystiolaeth sydd gennym i gefnogi'r gwahanol honiadau y tu ôl iddynt.

43. Prif allbwn y grŵp fydd papur neu gyflwyniad a fydd yn tanlinellu ac yn cyfathrebu'r problemau a ddaeth i'r amlwg yn glir a chryno fel y byddant yn cael eu derbyn gan y diwydiant amaethyddol. Bydd yr allbwn yn cael ei rannu â Llywodraeth Cymru ac â'r diwydiant amaethyddol ehangach. Y dyddiad cau yn fras yw Mai/Mehefin ar gyfer y papur neu'r cyflwyniad hwnnw (ym mha bynnag ffurf y caiff ei gyflwyno). Y gobaith yw y bydd drafft ar gael i'w adolygu ym mis Mai.
44. Mae camau gweithredu a chanlyniadau pellach gan y grŵp yn cynnwys deall yr arloesiadau technegol gwahanol a fydd yn helpu i ddarparu atebion i liniaru llygredd amaethyddol ac amlygu unrhyw feysydd o gymorth mewn perthynas â meysydd ariannol technegol y bydd eu hangen ar y diwydiant er mwyn sicrhau'r gwelliant. Mae'r grŵp yn bodoli hefyd i ddarparu gwybodaeth dechnegol, arbenigedd, a chyngor cyson ar raddfa genedlaethol i Grwpiau Cynghori Technegol Lleol ACA fel rhan o Brosiect Afonydd ehangach ACA. Byddant yn bwydo gwybodaeth hefyd i Grŵp Goruchwylio Afonydd ACA.
45. Dywedodd Zoe y bydd yn ddiddorol iawn gweld cyflwyniad cynhwysfawr yn ymwneud â'r ardal gyfan a fydd yn helpu ein dealltwriaeth wrth symud ymlaen.

**AP Chwefror 03: Bronwen Martin, CNC i rannu manylion cyswllt Ieuan Stephen Davies, CNC, â'r grŵp.**

## **Eitem 7 Is-grŵp WLMF: Canlyniadau ar gyfer 2023**

46. Cafodd copi o Gylch Gorchwyl Is-Grŵp WLMF eu dosbarthu cyn y cyfarfod ynghyd â chopi o [Adroddiad Cynnydd Is-grŵp WLMF](#) (2018). Gofynnwyd i'r grŵp feddwl pa ganlyniadau y credant y dylai'r grŵp hwn weithio arnynt yn 2023. Dyma gyfle i drafod rhai syniadau a phenderfynu ar beth fydd y grŵp yn canolbwyntio arno eleni.
47. Dywedodd Chris Mills nad oes dim yn y Cylch Gorchwyl y byddai'n anghytuno ag ef, fodd bynnag, yr hyn sy'n bwysig yw'r ffordd y maen nhw'n trosi'r Cylch Gorchwyl hwnnw i'r cyfarfodydd go iawn a sicrhau bod mwy o ffocws. Awgrymodd Chris a ddylid efallai edrych ar yr agenda mewn ffordd ychydig yn wahanol o ran mynd yn ôl at y Cylch Gorchwyl hwnnw a'r mathau o bethau a allai amlinellu'n glir yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni. Efallai bod angen i ni fod ychydig yn fwy strategol wrth ddewis eitemau'r agenda i gyd-fynd â'r canlyniadau sydd yn y Cylch Gorchwyl. Yr argraff ar hyn o bryd yw bod pobl yn dod ymlaen gan gynnig rhoi cyflwyniadau ac yna mae angen cynnwys y rheiny yn yr agenda. Bydd rhai ohonynt yn bodloni rhai o'r amcanion hynny ond mae yna ffordd well o fynd o'i chwmpas hi, sy'n targedu i raddau mwy.
48. Soniodd Dennis fod y Cylch Gorchwyl yn nodi bod Is-Grŵp WLMF yn edrych ar lygredd amaethyddol, ond nid yw'n dweud nitradau yn unig yn benodol. Dywedodd Dennis ei fod wedi sôn am hyn yn y gorffennol oherwydd mae'n ymddangos bod grwpiau eraill yn cael eu sefydlu i ymdrin â llygredd ffosffadau, llygredd gronynnol ac ati pan fo'r Is-Grŵp WLMF wedi rhoi sylw eithaf manwl i'r rhain. Mae perygl mawr bod pethau'n cael eu hailadrodd gan grwpiau eraill drwy fynd dros yr un pethau rydym eisoes wedi eu trafod ac wedi awgrymu atebion ar eu cyfer. Awgrymodd Dennis y dylid cael mwy o integreiddio rhwng y gwahanol grwpiau sy'n edrych ar lygredd gan fod yr argymhellion sy'n dod o rai o'r grwpiau eraill yr union yr un fath â'r rhai rydym ni wedi'u cynnig ar

gyfer darpariaeth nitradau. Roedd Zoe yn cytuno a dywedodd mai nod y grŵp ffosffadau yw neilltuo cyfnod byr, penodol i ymgysylltu â'r materion a'r heriau.

49. Roedd Bronwen yn cofio bod Chris wedi awgrymu ein bod yn edrych ar yr agenda mewn ffordd wahanol a ffordd fwy strategol a gofynnodd i Chris ymhelaethu ychydig mwy ar yr hyn yr oedd ganddo mewn golwg. Esboniodd Chris, os ydych yn edrych ar bwynt 2.8 yn y Cylch Gorchwyl, mae yna gyfres o bwyntiau bwled a dyna mae'n ymddangos yw hanfod y grŵp hwn. Mae'n dechrau drwy 'gynnal dadansoddiad o wraidd y broblem er mwyn cael dealltwriaeth gyffredin o achosion llygredd amaethyddol', ac yna 'nodi opsiynau posibl ar gyfer mesurau deddfwriaethol a heb fod yn ddeddfwriaethol. Dyma sut rydym yn trosi hynny i'n rhaglen waith. Awgrymodd Chris y gallai'r grŵp fynd drwy'r rhestr honno o amcanion i weld pa un o'r rhain sydd wedi'u cyflawni mewn gwirionedd ac i ba raddau. Byddai hynny'n gam cyntaf defnyddiol iawn. Yna dylid edrych ar y meysydd lle rydym wedi gwneud y cynnydd lleiaf a lle sydd angen gwneud y cynnydd mwyaf. Gellid mynd ati wedyn i dargedu pwy rydym am ofyn iddynt ddod i siarad â ni neu ba bynnag fenter, gan ein bod yn dymuno bodloni'r amcan hwnnw. Y perygl yma yw bod rhywun yn troi yn ei unfan. Mae angen i chi weld a ydy'r grŵp yn cyflawni unrhyw beth ac i ba raddau rydym yn bodloni'r amcanion hynny, yr hyn sydd angen i ni ganolbwyntio arno a sut mae trefnu ein cyfarfodydd o amgylch hynny wedyn.

50. Roedd Rachel yn cytuno â Dennis gan ailadrodd bod llawer o grwpiau gwahanol. Sefydlwyd SACROG, y Grŵp Technegol Amaethyddol a grŵp gorchwyl a gorffen Llywodraeth Cymru ar fasnachu maetholion. Ar ôl bod mewn un cyfarfod o SACROG a gwrando ar rai sgysiau a thrafodaethau yn y cyfarfod hwnnw nad oedd yn strategol iawn, mae amwysedd nawr ynglŷn â rolau a chylch gwaith yr hyn sy'n strwythur llywodraethu gwirioneddol gymhleth. Yn ogystal, mae gennym Fforwm Rheoli Tir Cymru a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru hefyd. Mae yna risg gwirioneddol ein bod yn mynychu cyfarfod ar ôl cyfarfod, gan ailadrodd yr hyn rydym yn ei ddweud ym mhob un ac nad yw hynny'n arwain at gynnydd mewn gwirionedd. Byddai eglurder ynghylch rolau cylch gwaith y grwpiau perthnasol hyn o lefel uchel iawn yn cael ei werthfawrogi. Fel Is-grŵp WLMF, rydym wedi cael profiad o roi cryn ymdrech yn y gwaith, dod i gonsensws, a chynnig gwaith da iawn dim ond i hynny gael ei ddiystyru gan Lywodraeth Cymru. Nid oes angen i ni fod yn dyblygu neu'n efelychu gwaith ac mae angen i ni gael yr hyder wrth wneud y gwaith hwn.

O ran sylwadau Chris, soniodd Rachel iddi fod yn aelod o Is-Grŵp WLMF ers ei sefydlu. Mae'r grŵp wedi gwneud rhywfaint o waith ar wraidd y broblem ac wedi gallu dod i gonsensws mewn rhai meysydd ond nid oedd modd gwneud hynny mewn meysydd eraill. Mae rhai ohonom wedi bod yma ers y cychwyn ac rydym nawr yn cael cais i ymuno â grwpiau eraill, ond mae yna gwestiwn ynghylch pa mor effeithiol ydyw i ni orfod cychwyn o'r cychwyn bob tro.

51. Awgrymodd Zoe y gellid trefnu cyfarfod ar wahân gyda hi, Bronwen a Chris i fynd ar drywydd y mater hwn a chynnig rhywbeth yn y cyfarfod nesaf.

**AP Chwefror 04: Bronwen Martin, CNC i drefnu cyfarfod gyda Zoe Henderson, CNC a Chris Mills, WEL i drafod symud y grŵp ymlaen a chysylltu agendâu'r cyfarfod ag amcanion y grŵp.**

52. Atgoffodd Bernard y grŵp fod dau fater ar wahân. Mae'r cyntaf yn ymwneud â Chylch Gorchwyl y grŵp hwn, sut rydym yn mynd ati i sefydlu'r agenda a'r hyn rydym yn ei wneud yn y grŵp. Yr ail fater yw sut mae grwpiau neu fforymau eraill yn cydweithio a sut gallant osgoi dyblygu. Roedd Chris yn cytuno eu bod yn ddau fater ar wahân, ond mae'n debyg bod angen i ni ystyried y ddau.

## **Eitem 8 Unrhyw Fater Arall**

53. Dywedodd Einir fod Cyswllt Ffermio yn diweddarau'n fewnol eu rhestr ar gyfer cyfathrebu â rhanddeiliaid a sylwodd nad oedd cryn dipyn o bobl sydd yn y grŵp hwn ar y rhestr. Gofynnodd Einir am gyfeiriadau e-bost gan bartion sydd â diddordeb ac awgrymodd, pan fydd yn rhannu ystadegau ar gyfer digwyddiadau llygredd amaethyddol Cyswllt Ffermio drwy Bronwen, y gallai pobl gysylltu â hi gyda'u manylion cyswllt i ymuno â rhestr rhanddeiliaid.

54. Cynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm ddydd Llun 27 Medi 2023.

55. Mae Bronwen yn gweithio ar drefnu ymweliad safle ar gyfer y cyfarfod ym mis Ebrill. Croesewir syniadau ac awgrymiadau, a dylid eu hanfon at Bronwen.

56. Ni chodwyd unrhyw fater arall.

## **Y cyfarfod yn dod i ben**